**Dyma ychydig o enghreifftiau o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a allai ddod yn broblem ddifrifol yn ein dyfrffyrdd:**

## BRIALLEN Y DŴR



Mae planhigion dŵr croyw fel briallen y dŵr yn blocio dyfrffyrdd gan gyfyngu ar lywio, ac yn tagu pyllau a llynnoedd. Nid yw briallen y dŵr wedi ymledu'n helaeth ym Mhrydain hyd ond os bydd yn lledu ymhellach, fel y gwnaeth mewn rhannau eraill o Ewrop, bydd yn costio £miliynau i'w rheoli.

## MISGLEN QUAGGA



Mae'r fisglen dŵr croyw fechan iawn hon yn bridio'n hynod gyflym ac yn tyfu mewn clystyrau dwys a all orchuddio wyneb isaf cychod a thagu'r propelor.

## PERDYSEN REIBUS



Mae'r berdysen hon yn ysglyfaethwr gwancus ac yn lladd anifeiliaid bychain eraill fel ein perdysen frodorol a physgod ifanc, a gall hyn effeithio'n sylweddol ar yr holl ecosystem. Mae ei maint bychan (3cm ar y mwyaf) yn golygu y gallai'n hawdd fod ynghudd ar rannau tamp yn eich cwch neu ar eich dillad, lle y gall oroesi am bythefnos.

# ATAL YR YMLEDIAD

Gallwch ganfod mwy am blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a sut i'w hatal rhag ymledu yn:

**nonnativespecies.org/checkcleandry**

@CheckCleanDryGB

Sganiwch y cod QR ar eich ffôn symudol

Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru Welsh Government

natural scotland SCOTTISH GOVERNMENT

NNSS GB non-native species secretariat

Canal & River Trust Making life better by water

Scottish Canals

BRITISH CANOEING

ANGLING TRUST THE VOICE OF ANGLING

RYA

Lluniau gan Asiantaeth yr Amgylchedd; Trevor Renals; a David Aldridge, Prifysgol Caergrawnt.



## Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol yn blocio dyfrffyrdd ac yn niweidio'r amgylchedd

## Peidiwch â'u helpu i ymledu ar eich cwch

**EDRYCH GOLCHI SYCHU**

45228 Check Clean Dry Canal A4_DL.indd 1 08/03/2019 13:40

**Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol o bob rhan o'r byd wedi eu cyflwyno'n ddamweiniol i ddyfroedd ym Mhrydain. Mae dros hanner cant o wahanol rywogaethau eisoes wedi eu canfod yn ein llynnoedd, ein hafonydd a dyfrffyrdd eraill ac mae'r niferoedd sy'n cyrraedd o'r newydd yn cynyddu'n gyflym.**

Maent yn achosi problemau amgylcheddol difrifol a all fod yn ddi-droi'n-ôl – gan gystadlu'n llwyddiannus yn erbyn bywyd gwyllt brodorol, achosi niwed i ecosystemau a lledaenu clefydau. Gallant hefyd flocio camlesi gan gyfyngu ar lywio, tagu'r propelor a difrodi cychod.

Gallant fod yn fychan ac anodd eu canfod felly mae'n hawdd iddynt ymledu ar gychod ac offer tamp. **Diogelwch yr amgylchedd a chofiwch eich bod yn Edrych Golchi Sychu pan fyddwch yn dod â'ch cwch allan o'r dŵr i osgoi planhigion ac anifeiliaid ymosodol rhag ymledu.**

# ATAL YR YMLEDIAD

**Pan fyddwch ar y dŵr gallwch leihau'r risg bod planhigion ac anifeiliaid ymosodol yn ymledu drwy:**

- Osgoi mannau lle mae planhigion yn arnofio
- Tynnu unrhyw blanhigion fydd wedi mynd yn sownd ar eich peiriant neu'ch propelor
- Os oes peiriant mewnol yn eich cwch, cliriwch yr hidlyddion chwyn yn rheolaidd
- Rhoi unrhyw ddeunydd planhigion mewn bagiau i'w taflu i'r bin yn nes ymlaen

**Os byddwch yn tynnu eich cwch o'r dŵr i'w symud i rywle newydd mae'n hynod bwysig eich bod yn Edrych Golchi Sychu i sicrhau nad ydych yn dod ag unrhyw blanhigion neu anifeiliaid ymosodol gyda chi.**

## EDRYCH

**Edrychwch** ar eich cychod, eich offer a'ch dillad ar ôl dod allan o'r dŵr gan chwilio am fwd, deunydd halogi neu ddeunydd planhigion. Tynnwch unrhyw beth y byddwch yn ei ddarganfod, a'i adael ar y lan neu ei roi yn y bin.


## GOLCHI

**Golchwch** bopeth yn drylwyr cyn gynted ag y gallwch, gan roi sylw i'r ffender, propelor, yr ymyl o amgylch eich cwch, a mannau sy'n damp ac yn anodd mynd atynt. Defnyddiwch ddŵr poeth os gallwch.

## SYCHU

**Sychwch** – draeniwch ddŵr o bob rhan o'ch cwch a sychwch bopeth cyn hired â phosibl cyn eu defnyddio yn rhywle arall gan y gall rhai planhigion ac anifeiliaid ymosodol oroesi am bythefnos dan amodau tamp.

## Cofiwch edrych yn ofalus ar y mannau hyn



Gallwch wneud cais am ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth ynghylch Edrych Golchi Sychu ar gyfer eich clwb yn rhad ac am ddim o **nonnativespecies.org/checkcleandry**

45228 Check Clean Dry Canal A4_DL.indd 2 08/03/2019 13:40